

Cwrs Mynediad: Uned 11

Nod: Siarad am deulu ac eiddo *Speaking about family and possessions*

1.	Fy nhad i	<i>My father</i>
	Fy ngŵr i	<i>My husband</i>
	Fy ngwraig i	<i>My wife</i>
	Fy mhartner i	<i>My partner</i>
	Fy nghariad i	<i>My boyfriend/girlfriend</i>
	Fy mrawd i	<i>My brother</i>
	Pwy yw e/hi?	<i>Who's he/she?</i>

Pwy yw e / hi?

Dyma eich:

tad, gŵr, gwraig, partner, cariad, brawd etc.

Mae eich partner yn mynd i ofyn pwy yw pwy.

Your partner will ask who each one is. Take turns.



A: 'Pwy yw Elwyn?'

B: 'Fy mhartner i.'



Elwyn



John



James



Mair



Natalie



Ffion



Dafydd



Gareth

- 2.** Gwilym yw enw fy mrawd i
 Bethan yw enw fy nghyfnithwr i
 Margaret oedd enw fy mam-gu i
 Tom oedd enw fy nhad-cu i
- Beth yw enw eich brawd chi?
 Beth oedd enw eich tad-cu chi?
- My brother's name is Gwilym
 My cousin's name is Bethan
 My grandmother's name was Margaret
 My grandfather's name was Tom*
- What is your brother's name?
 What was your grandfather's name?*

Holiadur enwau

A: Beth yw enw eich _____ chi?
B: _____ yw enw fy _____ i.

A: Beth oedd enw eich _____ chi?
B: _____ oedd enw fy _____ i.

Enw	Tad-cu	Mam-gu	Tad	Brawd	Cymydog	Doctor



Pwy dw i?

Gyda phartner, meddyliwrh am berson neu gymeriad enwog.
 Paratowch hyd at 3 chliw i'r dosbarth gael dyfalu pwy yw e hi.

With a partner, think about a famous person.

Prepare up to 3 clues for the class to guess who he/she is.

e.e. Marge yw enw fy ngwraig i.

Lisa yw enw fy merch i.

Mr Burns yw enw fy mös i.



- _____
- _____
- _____

3. 209776 yw fy rhif ffôn i
 Dr Bassett yw fy noctor i
 Ford yw mîc fy nghar i
 John yw enw fy mös i

*209776 is my phone number
 Dr Bassett is my doctor
 Ford is the make of my car
 John is the name of my boss*

Beth yw dy rif ffôn di?
 Pwy yw dy ddoctor di?
 Beth yw mîc dy gar di?
 Beth yw enw dy fös di?

*What's your phone number?
 Who's your doctor?
 What make is your car?
 What's the name of your boss?*



Gyda'ch partner:

Gofynnwch y cwestiynau hyn
 i'ch partner a nodwch yr ateb:



Cwestiwn:	Ateb:
Pwy yw dy ddoctor di?	
Beth yw rhif dy gar di?	
Beth yw mîc dy gar di?	
Beth yw enw dy frawd neu dy chwaer di?	
Ble mae dy frawd neu dy chwaer yn byw?	
Beth oedd enw dy fam-gu di?	
Beth yw enw dy gymydog di?	





Deialog

- A: Beth yw enw dy frawd di?
- B: Idris. Mae e'n byw yn Wrecsam.
- A: A beth yw enw dy dad a dy fam?
- B: Graham yw enw fy nhad i a Meriel yw enw fy mam i.
- A: Graham Morgan?
- B: Ie, 'na fe. Mae e'n dod o Bort Talbot yn wreiddiol.
- A: Wel, wel, dw i'n nabod Graham Morgan!



Geirfa

bôs	- boss
cefndrer	- cousin (<i>male</i>)
cyfnithier (b)	- cousin (<i>female</i>)
cymydog	- neighbour
cymdogion	- neighbours
gŵr	- husband
gwraig (b)	- wife
llaw	- hand
mam-gu (b)	- grandmother
mêc	- make (<i>as in car</i>)
nabod	- to know (<i>a person</i>)
rhieni	- parents
tad-cu	- grandfather
ying-nghyfraith	- in-law

Ychwanegwch eirfa
sy'n berthnasol i chi:

Add vocabulary that's
relevant to you:



Gramadeg

Fy _____ i

Mae Treiglad Trwynol ar ôl fy:

partner	>	fy mhartner i
brawd	>	fy mrawd i
tad-cu	>	fy nhad-cu i
doctor	>	fy noctor i
cariad	>	fy nghariad i
gwraig	>	fy ngwraig i

People usually say 'y' rather than 'fy'. So:

'fy mrawd i'	will be pronounced	'y mrawd i'
and 'fy ngŵr i'	will be pronounced	'y ngŵr i.'

If there isn't a mutation, people usually say 'yn' rather than fy:

'fy enw i'	becomes	'yn enw i'
and 'fy chwaer i'	becomes	'yn chwaer i'

Dy _____ di

Mae Treiglad Meddal ar ôl dy:

plant	>	dy blant di
brawd	>	dy frawd di
teulu	>	dy deulu di
doctor	>	dy ddoctor di
cariad	>	dy gariad di
gŵr	>	dy ŵr di
mam	>	dy fam di
llaw	>	dy law di
rhieni	>	dy rieni di

Does dim treiglad ar ôl eich. Hwrê!

Y Treiglad Trwynol Nasal Mutation

P	➡	Mh
B	➡	M
T	➡	Nh
D	➡	N
C	➡	Ngh
G	➡	Ng

Y Treiglad Meddal Soft Mutation

P	➡	B
B	➡	F
T	➡	D
D	➡	Dd
C	➡	G
G	➡	...
M	➡	F
L	➡	L
Rh	➡	R

Cwrs Mynediad: Uned 12

Nod: Siarad am deulu ac eiddo Speaking about family and possessions

1. Faint yw oedran ei ferch e?

Mae hi'n flwydd oed

Faint yw oedran ei fab e?

Mae e'n ddwy oed

Faint yw oedran ei merch hi?

Mae hi'n dair oed

Faint yw oedran ei mab hi?

Mae e'n bedair oed

Dych chi'n nabod ei dad e?

Ydw, dw i'n nabod ei dad e

Nac ydw, dw i ddim yn nabod
ei dad e

Dw i'n nabod ei frawd e

Dw i'n nabod ei gefnnder e

Dych chi'n nabod ei thad hi?

Ydw, dw i'n nabod ei thad hi

Nac ydw, dw i ddim yn nabod
ei thad hi

Dw i'n nabod ei brawd hi

Dw i'n nabod ei chefnnder hi

- How old is his daughter?

- She's a year (old)

- How old is his son?

- He's two (years old)

- How old is her daughter?

- She's three

- How old is her son?

- He's four

- Do you know his father?

- Yes, I know his father

- No, I don't know his father

- I know his brother

- I know his cousin

- Do you know her father?

- Yes, I know her father

- No, I don't know her father

- I know her brother

- I know her cousin




Wyt ti'n nabod...?

Dyma deulu Siôn. Dych chi'n nabod 5 aelod o'r teulu ac mae eich partner yn nabod y llell.

1. Trafodwch gyda'ch partner a rhowch ✓ ar bwys y rhai dych chi'n nabod.
2. Rhowch enwau, gwaith a diddordebau dychmygol iddyn nhw.
3. Atebwch gwestiynau eich partner amdanyn nhw.

This is Siôn's family. You know 5 members of the family and your partner knows the others. Discuss with your partner, tick those that you know, create an imaginary life (names, work, interests) for them and answer your partner's questions about them.



2.	Ble mae ei chot hi? Wrth y drws Ble mae ei got e? Yn y car Ble mae ei lyfr sieciau e? O dan y ford Ble mae ei phwrs hi? Ar y silff Ble mae ei arian e? Yn ei boced e Ble mae ei harian hi? Yn ei phoced hi	<i>Where's her coat? By the door Where's his coat? In the car Where's his cheque book? Under the table Where's her purse? On the shelf Where's his money? In his pocket Where's her money? In her pocket</i>
-----------	---	--



Ble mae ei?

Gyda'ch partner, gofynnwch ble mae'r pethau yma ac ateb ar sail y lluniau:

With your partner, ask where these things are, answering according to the pictures:

A: Ble mae ei _____ e?

A: Ble mae ei _____ hi?

B: Yn y _____ / Ar y _____.

B: Yn y _____ / Ar y _____.



Holi am ffrind

Asking about a friend

Gyda'ch partner, meddyliwch am gwestiynau i'w gofyn am ffrind (dychmygol efallai).

With your partner, think of questions to ask about a friend (an imaginary friend if you like).

Yn eich tro, gofynnwch y cwestiynau. Ysgrifennwch yr atebion yn y grid.

Then take your turns to ask the questions. Write the answers on the grid.

Er enghraift:

Enw	Eirian
Oedran	30
Gwaith	Doctor
Enw'r tŷ	Cartrefle
Enw'r ci	Y Cynrol
Mêc y car	Volvo

Enw	
Oedran	
Gwaith	
Enw'r tŷ	
Enw'r ci	
Mêc y car	

Deialog

A: Wyt ti'n nabod Carwyn Price?

B: Beth yw ei waith e?

A: Trydanwr yw e, dw i'n credu.

B: Ydy e'n briod?

A: Ydy, ond dw i ddim yn cofio
beth yw enw ei wraig e.

B: Faint yw oedran ei blant e?

A: Mae ei ferch e'n ddwy, ac mae
ei fab e'n bedair.

Newidiwch y ddeialog,

gan ddechrau fel hyn:

Change the dialogue, starting like this:

A: Wyt ti'n nabod Caryl Puw?

Ychwanegwch eirfa
sy'n berthnasol i chi:

*Add vocabulary that's
relevant to you:*



Geirfa

allwedd/i (b)	- key/s
anti/modryb (b)	- aunt
ar	- on
ar ben	- on top of
arian	- money
bocs	- box
cadair (b)	- chair
cadair freichiau (b)	- armchair
camera	- camera
cefnader	- cousin (male)
cyfnither (b)	- cousin (female)
cot (b)	- coat
drws	- door
llyfr	- book
llyfr sieciau	- cheque book
o dan	- under
papur (newydd)	- (news)paper
paned (b)	- cuppa, cup of tea or coffee
pensel (b)	- pencil
poced (b)	- pocket
priod	- married
pwrs	- purse
teledu	- television
wrth	- by
wyr	- grandson
wyres (b)	- grand-daughter
yncl/ewythwr	- uncle



Gramadeg

Treiglad Meddal ar ôl 'ei' (gwrywaidd)

Soft Mutation after 'ei' (masculine)



Treiglad Llaes ar ôl 'ei' (benywaidd) (dim ond 'p', 't' ac 'c') + 'h' cyn llafariad

Aspirate Mutation after 'ei' (feminine) (only 'p', 't' and 'c') + 'h' before a vowel

plant	ei blant e	ei phlant hi
tad	ei dad e	ei thad hi
cefnder	ei gefnder e	ei chefnder hi
brawd	ei frawd e	ei brawd hi
doctor	ei ddoctor e	ei doctor hi
gwaith	ei _waith e	ei gwaith hi
mam	ei fam e	ei mam hi
llaw	ei law e	ei llaw hi
rhieni	ei rienci e	ei rhieni hi
enw	ei enw e	ei henw hi



Oedran

Age

When we talk about age, regardless of whether a person is feminine or masculine, we use the feminine form of numbers because we are referring to the word for year = blwydd, which is feminine.

The 'older' forms of numbers are used from 11 - 30 and for 40, 50, 60 and 80. See the examples opposite.

Ask the tutor if you need a particular age.

Mae Garmon yn ddwy oed

Mae Lisa yn bedair oed

Mae Marc yn dair oed

11 – un ar ddeg

12 – deuddeg

22 – dwy ar hugain

Cwrs Mynediad: Uned 13



Nod: Trafod yr amser *Discussing the time*

1. Faint o'r gloch yw hi? / What time is it?

Mae hi'n un o'r gloch

It's one o'clock

Mae hi'n ddua o'r gloch

It's two o'clock

Mae hi'n un ar ddeg

It's eleven

Mae hi'n ddeuddeg

It's twelve

Mae hi'n hanner dydd

It's midday

Mae hi'n hanner nos

It's midnight

Mae hi'n chwarter wedi dau

It's a quarter past two

Mae hi'n hanner awr wedi dau

It's half past two

Mae hi'n chwarter i dri

It's a quarter to three

Mae hi'n amser codi

It's time to get up

Mae hi'n amser coffi

It's coffee time

Mae hi'n amser mynd adre

It's time to go home





A: Faint o'r gloch yw hi?

B: Mae hi'n _____




1



2



3



4



5



6



7



8




9



10



11



12

2. Pryd wyt ti'n codi?

Am saith o'r gloch

Am chwarter i wyth

*When do you get up?**At seven o'clock**At a quarter to eight*

Pryd dych chi'n mynd ade?

Am bump o'r gloch

Am ddeg munud wedi pump

Am bum munud i bedwar

*When do you go home?**At five o'clock**At ten past five**At five to four*

Pryd maen nhw'n mynd i'r gwely?

Am ddeg o'r gloch

Am ugain munud wedi deg

Am bum munud ar hugain i hanner nos

*When do they go to bed?**At ten o'clock**At twenty past ten**At twenty five to midnight*



Am faint o'r gloch wyt ti'n
? _____

Pryd wyt ti'n
? _____

Fi	_____	_____
codi	_____	_____
mynd i'r gwaith	_____	_____
gorffen gwaith	_____	_____
cyrfaedd adre	_____	_____
cael swper	_____	_____
edrych ar y newyddion	_____	_____
mynd i'r gwely	_____	_____

Diwrnod Delyth

Partner A

C: Ble mae Delyth am _____?

A: Mae hi _____

7.45 _____

8.00 _____ yn cael brecwast

8.30 _____

9.00 _____ yn y swyddfa

11.15 _____

12.30 _____ yn cael cinio yn y dre

1.30 _____

2.20 _____ yn cael te

5.40 _____

6.15 _____ yn coginio

7.00 _____

8.45 _____ yn y dafarn

10.30 _____



Deialog

A: Esgusodwch fi, ond
dych chi'n hwyr.

B: Yn hwyr? Faint o'r
gloch yw hi, 'te?

A: Mae hi'n ddau o'r-
gloch. Dych chi yma am
chwarter i ddau fel arfer.

B: Am ddau dw i'n dechrau
gweithio, felly dw i'n
gynnar fel arfer.

A: O, dw i'n gweld.
Mae'n ddrwg gyda fi.
B: Popeth yn iawn.



Geirfa

am (+ TM)	- at (time)
ar y ffordd	- on the way
brecwast	- breakfast
cawod (b)	- shower
cinio	- lunch
cynnabar	- early
cyrraedd	- to arrive
enwog	- famous
fel arfer	- usually
ffordd (b)/ffyrrdd	- way/s, road/s
hanner dydd	- midday
hanner nos	- midnight
hwyr	- late
mae'n ddrwg gyda fi	- I'm sorry
o'r gloch	- o'clock
popeth yn iawn	- not to worry, fine
Pryd?	- When?
seren (b)/sêr	- star/s
swper	- supper
tafarn/au (b)	- pub/s

Ychwanegwch eirfa

sy'n berthnasol i chi:

Add vocabulary that's
relevant to you:



Gramadeg

Time, Numbers and Soft Mutations!

We saw in the last unit that the traditional numbers are used when talking about age.

Time is another area where traditional numbers are still used:

un ar ddeg	eleven
deuddeg	twelve
ugain munud i/wedi	twenty to/past
pum munud ar hugain i/wedi	twenty five to/past

Mae Treiglad Meddal ar ôl i ac am.

ugain munud i bump	twenty to five
am dri o'r gloch	at three o'clock
am ddeg munud i bedwar	at ten to four

Maen nhw'n mynd

They go/They are going

The full pattern of the present tense has now been introduced:

Dw i	Dw i ddim
Rwyt ti	Dwyt ti ddim
Mae e/hi	Dyw e/hí ddim
Dyn ni	Dyn ni ddim
Dych chi	Dych chi ddim
Maen nhw	Dyn nhw ddim



Diwrnod Delyth

Partner B

C: Ble mae Delyth am _____?

A: Mae hi _____

7.45 _____ yn y gawod

8.00 _____

8.30 _____ ar y bws

9.00 _____

11.15 _____ yn cael coffi

12.30 _____

1.30 _____ nôl yn y gwaith

2.20 _____

5.40 _____ ar y ffordd adre

6.15 _____

7.00 _____ yn bwytia swper

8.45 _____

10.30 _____ yn cysgu ar y bar!



Cwrs Mynediad: Uned 14

Nod: Trafod y gorffennol *Discussing the past*

1.	Es i i weld ffrindiau i'r gêm am dro i'r gwaith	<i>I went to see friends</i> <i>I went to the game</i> <i>I went for a walk</i> <i>I went to work</i>
	Ble est ti ddoe?	<i>Where did you go yesterday?</i>
	Ble aethoch chi neithiwr?	<i>Where did you go last night?</i>
	Es i ddim i'r dafarn	<i>I didn't go to the pub</i>
	Es i ddim i Abertawe	<i>I didn't go to Swansea</i>
	Es i ddim i'r pwll nofio	<i>I didn't go to the swimming pool</i>
	Est ti i'r banc bore ddoe?	<i>Did you go to the bank yesterday morning?</i>
	Aethoch chi i Aberystwyth?	<i>Did you go to Aberystwyth?</i>
	DO / NADDO	<i>Yes / No</i>

Ble est ti? / Ble aethoch chi?

Partner A

Chi	Eich partner	
Dydd Llun	i Ddinbych	Dydd Llun
Dydd Mawrth	i'r gwaith	Dydd Mawrth
Dydd Mercher	i nofio	Dydd Mercher
Dydd Iau	i gael pryd o fwyd	Dydd Iau
Dydd Gwener	i'r dafarn	Dydd Gwener
Dydd Sadwrn	i weld gêm	Dydd Sadwrn
Dydd Sul	i unman	Dydd Sul

Chi		Eich partner	
Dydd Llun	i siopa yn Llandudno	Dydd Llun	
Dydd Mawrth	i weld ffrind	Dydd Mawrth	
Dydd Mercher	i chwarae sboncen	Dydd Mercher	
Dydd Iau	i unman	Dydd Iau	
Dydd Gwener	i'r swyddfa	Dydd Gwener	
Dydd Sadwrn	i chwarae rygbi	Dydd Sadwrn	
Dydd Sul	i dŷ ffrindiau	Dydd Sul	

Gyda'r tiwtor/Gyda phartner

C: Est ti i'r swyddfa dydd Mawrth?

A: Do, es i i'r swyddfa yn y bore.

C: Aethoch chi i Tesco dydd Sadwrn?

A: Naddo, es i ddim i Tesco. Es i i Asda.

2. Ges i gyri

beint

Ges i ddim byd

Ges i ddim gwin

I had a curry

I had a pint

I didn't have anything

I didn't have any wine

Beth gest ti neithiwr?

Beth gaethoch chi?

What did you have last night?

What did you have?

Gest ti hwyl? / Gaethoch chi hwyl?

DO / NADDOD

Did you have fun?

Yes / No

Beth gest ti i fwyta?

Beth gaethoch chi i yfed?

Ges i dost i frecwast

Ges i frechdan i ginio

Ges i gyw iâr i de

Ges i gyri, sglodion a gwin i swper!

Beth gest ti cyn mynd i'r gwely?!



Gêm drac

Symudwch o gwmpas y trac.

Bydd eich tiwtor yn dweud pa gwestiynau i'w gofyn.

Dechrau



Diwedd



3. Des i yn y car
mewn tacsi
Ddes i ddim ar y trén
ar y bws

I came by car
I came by taxi
I didn't come by train
I didn't come by bus

Sut dest ti yma heno?
Sut daethoch chi?

How did you come here tonight?
How did you come?

Ddaethoch chi mewn awyren?
Ddest ti mewn car?
DO / NADDO

Did you come by plane?
Did you come in a car?
Yes / No



Gyda phartner

Trafod:

C: Sut dest ti i'r dosbarth?

A: Des i _____

Dyfalu:

C: Ddest ti i'r dosbarth _____?

A: Do/Naddo



Gyda phartner

C: Sut est ti i chwarae rygbi dydd Sadwrn? **C:** Sut est ti i'r gwaith dydd Llun?
A: Es i ar y bws. **A:** Es i ar gefn tractor!

Deialog

- A:** Ble est ti neithiwr?
B: Es i i Abertawe.
A: Pam est ti i Abertawe?
B: Es i i'r ysbyty i weld ffrind.
A: Pryd dest ti adre?
B: Des i adre am ddeg o'r gloch. Pam wyt ti'n gofyn?
A: Dw i'n hoffi gwybod ble wyt ti'n mynd. Fi yw dy wraig di!



Geirfa

ar gefn tractor	-	on (the back of) a tractor	llysiau	-	vegetables
awyren (b)	-	plane	neithiwr	-	last night
bore ddoe	-	yesterday morning	peint	-	pint
brechdan(au) (b)	-	sandwich(es)	pryd o fwyd	-	a meal
bwyta	-	to eat	prynu	-	to buy
cawl	-	soup	pysgod	-	fish
cig	-	meat	sboncen	-	squash
cwrw	-	beer	tacsi	-	taxi
cyn	-	before	tatws	-	potatoes
cyri	-	curry	tost	-	toast
cyw iâr	-	chicken	treiffl	-	trifle
diddorol	-	interesting	trên	-	train
Dinbych	-	Denbigh	unman	-	nowhere
ddoe	-	yesterday			
ffrind(iau)	-	friend(s)			
gweld	-	to see			
gwin	-	wine			
hwyl	-	fun			
i de	-	for tea			
i frecwast	-	for breakfast			
i fwyta	-	to eat			
i ginio	-	for lunch/for dinner			
i swper	-	for supper			
Lerpwl	-	Liverpool			

Ychwanegwch eirfa
sy'n berthnasol i chi:

Add vocabulary that's
relevant to you:



Gramadeg

Gorffennol mynd, dod a cael

The Past Tense of *mynd, dod* and *cael*

These are irregular verbs – the most useful verbs usually are!

The unit introduces the first and second persons only for the time being:

mynd	dod	cael
es i	des i	ges i (or ces i)
est ti	dest ti	gest ti (or cest ti)
aethoch chi	daethoch chi	gaethoch chi (or cawsoch chi)

Questions in the past

You will notice that there is a **soft mutation** (Treiglad Meddal) to the verb if you are asking a question:

Ddest ti yma mewn tacs! - Did you come here in a taxi?

Answering Yes/No to a verb in the past tense

When answering Yes/No to a verb in the past tense, the answer is DO / NADDO:

Gest ti hwyl? - Did you have fun?

Do / Naddo - Yes / No

Negative statements

There is often a **soft mutation** (Treiglad Meddal) in the negative form:

dod > Ddes i ddim - I didn't come

More about this in *Uned 15!*

More mutations! - Ges i goffi

When the action of the verb affects something or someone else, e.g.

I had - what did you have? - coffee

that something else, coffee in this case, is called an **object**, and it mutates softly.

Ges i goffi

Ges i de

Ges i gyri

If it's a negative statement, then it's the **dim** which mutates to **ddim**:

Ges i ddim coffi

Ges i ddim te

Ges i ddim cyri

Which is easy! Yes, well, it may all seem a bit complicated, but there will be plenty of opportunities to get used to it over the next few units.

Cwrs Mynediad: Uned 15

Nod: Adolygu ac ymestyn Revision and extension

1.	Pwy yw hi? Pwy yw e? Fy merch i Fy nhad i Fy mrawd i	Who's she? Who's he? My daughter My father My brother	 
	Huw yw enw fy nghefnder i Gareth yw enw ei gefnder e Dafydd yw enw ei chefnder hi Beth yw enw dy gefnder di? Beth yw enw eich cefnder chi?	My cousin's name is Huw His cousin's name is Gareth Her cousin's name is Dafydd What's your cousin's name? (ti) What's your cousin's name? (chi)	

Tasg

Mewn grwpiau o 3, trafodwch eich fflatograffau o'r teulu/ffrindiau ac atebwch gwestiynau 'Pwy yw e/hi?'

In groups of 3, discuss the photographs of your family/friends and answer questions about who's who.

2.	Faint o'r gloch dych chi'n codi? Tua hanner awr wedi saith Pryd dych chi'n cyrraedd y gwaith? Tua deg munud i naw Pryd dych chi'n gweithio? Dw i'n gweithio o naw tan bump Pryd mae _____ ar y teledu? Mae _____ ar y teledu o hanner awr wedi saith tan wyth	What time do you get up? Around half past seven When do you arrive at work? Around ten to nine When do you work? I work from nine to five When is _____ on the television? _____ is on the television from half past seven until eight
----	---	--

Gofynnwch y cwestiynau hyn i'ch partner:


Ask your partner these questions:

1. Faint o'r gloch yw hi nawr?	
2. Faint o'r gloch wyt ti'n codi fel arfer?	
3. Pryd mae'r postmon yn dod?	
4. Faint o'r gloch wyt ti'n mynd i'r gwely fel arfer?	
5. Pryd wyt ti'n mynd i'r gwaith?	
6. Pryd mae _____ ar y teledu?	

Plismon Puw yn holi

Mae Plismon Puw eisiau gwybod ble aethoch chi bore ddoe, prynhawn ddoe a neithiwr. Dyma rai posibiliadau:

PC Puw wants to know where you went yesterday morning, yesterday afternoon and last night. Here are some possibilities:



Bore ddoe	Prynhawn ddoe	Neithiwr

Bydd y plismon hefyd yn gofyn cwestiynau eraill, er enghraifft:

The policeman will also ask other questions, for example:

Gyda phwy aethoch chi i'r dafarn?

Sut aethoch chi i'r dre i siopa?

Ble gaethoch chi fwyd?

Faint o'r gloch aethoch chi i'r dre / daethoch chi adre ...?

Paratowch eich atebion gyda phartner.

Prepare your answers with a partner.



Ddoe, roedd hi'n braf, felly es i am dro cyn brecwast. Wedyn es i i'r dre i gwrrdd â ffrind. Gaynor yw ei henw hi, ac mae hi a'i theulu'n byw ym Machynlleth nawr.

Tua deuddeg o'r gloch, des i nôl i'r tŷ a darllen y papur am hanner awr. Ges i frechdan i ginio ar fy mhen fy hunan. Roedd hi'n dal yn braf, felly es i i'r ardd i eistedd yn yr haul.

Neithiwr es i ma's i gael pryd o fwyd gyda ffrindiau o'r gwaith. Ges i gyw iâr a sglodion, a hufen iâ i bwdin. Ges i botelaid o win coch hefyd. Des i adre mewn tacsi, ac es i i'r gwely tua dau o'r gloch y bore!

3. Ble est ti ar dy wyliau y llynedd?

Ble aethoch chi ar eich gwyliau y llynedd?
Es i i Sbaen

Gyda phwy est ti ar dy wyliau?

Gyda phwy aethoch chi ar eich gwyliau?
Es i gyda'r teulu
Es i ar fy mhen fy hunan

Sut est ti ar dy wyliau?

Es i mewn awyren
Es i ar y bws

Beth gest ti i fwyta?

Beth gaethoch chi i yfed?
Ges i sangria

Where did you go on your holidays last year?

I went to Spain

With whom did you go on holiday?

*I went with the family
I went on my own*

How did you go on holiday?

*I went by plane
I went by bus*

What did you have to eat?

*What did you have to drink?
I had sangria*



Holiadur Gwyliau

Enw	Ble?	Sut?	Pryd?	Gyda phwy?	Bwyta?	Yfed?



Gwrando

Gwrandewch ar y deialogau a rhowch lythyren yr ateb cywir yn y blwch.

Listen to the tape and put the letter of the correct answer in the box.



Deialog 1

1. Pryd mae'r cyfarfod?

- | | | | |
|-----------------------|----------------------|----------------------|------------------------------|
| a
dydd Llun | b
dydd Sul | c
dydd Iau | Ateb
<input type="text"/> |
|-----------------------|----------------------|----------------------|------------------------------|

2. Faint o'r gloch
mae'r cyfarfod?

- | | | | |
|--------------|--------------|--------------|----------------------|
| a
 | b
 | c
 | <input type="text"/> |
|--------------|--------------|--------------|----------------------|

3. Ble mae Huw yn
mynd wedyn?

- | | | | |
|--------------|--------------|--------------|----------------------|
| a
 | b
 | c
 | <input type="text"/> |
|--------------|--------------|--------------|----------------------|

4. Pwy mae e'n mynd
i weld yno?

- | | | | |
|------------------------------------|-------------------------------|-------------------------------------|----------------------|
| a
ei chwaer
a'i frawd | b
ei fam
a'i dad | c
ei chwaer
a'i theulu | <input type="text"/> |
|------------------------------------|-------------------------------|-------------------------------------|----------------------|



Deialog 2

Dafydd sy'n gofyn y cwestiynau:

Dafydd is asking the questions:

5. Pryd des i nôl o 'ngwyliau?

a y llynedd

b neithiwr

c dydd Mawrth

Ateb

6. Ble es i ar fy ngwyliau?



7. Gyda phwy es
i ar fy ngwyliau?

a fy chwaer
a'i theulu

b fy mrawd
a ffrind

c fy nghefnder

8. Sut es i?

a Trôn o
Birmingham

b Awyren o
Gaerdydd

c Awyren o
Birmingham

9. Beth ges i i fwyt?
(Ticiwch 2 ateb)



10. Beth ges i i yfed?
(Ticiwch 1 ateb)





Geirfa

bwyd môr	- <i>seafood</i>
cwrdd â	- <i>to meet</i>
Ffrainc	- <i>France</i>
hufen iâ	- <i>ice cream</i>
i bwdin	- <i>for dessert</i>
nawr	- <i>now</i>
neithiwr	- <i>last night</i>
potelaid	- <i>a bottleful</i>
postmon	- <i>postman</i>
Sbaen	- <i>Spain</i>
sglodion	- <i>chips</i>
tan	- <i>until, to</i>
y llynedd	- <i>last year</i>
yn dal yn braf	- <i>still fine</i>

Misoedd y Flwyddyn

Ionawr	<i>January</i>
Chwefror	<i>February</i>
Mawrth	<i>March</i>
Ebrill	<i>April</i>
Mai	<i>May</i>
Mehefin	<i>June</i>
Gorffennaf	<i>July</i>
Awst	<i>August</i>
Medi	<i>September</i>
Hydref	<i>October</i>
Tachwedd	<i>November</i>
Rhagfyr	<i>December</i>

Ychwanegwch eirfa
sy'n berthnasol i chi:

Add vocabulary that's
relevant to you:

Sylwch

Note:

ym mis Awst *in (the month of) August*

ym mis Ebrill *in (the month of) April*





Rhestr gyfair *Check list*

✓ Ticiwch beth dych chi'n gallu wneud. Yn Gymraeg!

Tick what you can do. In Welsh!

- Dw i'n gallu siarad am fy nheulu ac eiddo
I can talk about my family and possessions
- Dw i'n gallu siarad am deulu ac eiddo rhywun arall
I can talk about someone else's family and possessions
- Dw i'n gallu gofyn cwestiynau am deulu ac eiddo
I can ask questions about family and possessions
- Dw i'n gallu gofyn faint o'r gloch yw hi
I can ask what time it is
- Dw i'n gallu dweud faint o'r gloch yw hi yn union ac yn fras
I can say exactly and approximately what time it is
- Dw i'n gallu dweud beth dw i'n wneud ar adegau arbennig o'r dydd
I can say what I do at certain times of the day
- Dw i'n gallu siarad am ble es i, sut des i a beth ges i i fwytia/yfed
I can speak about where I went, how I came and what I had to eat/drink
- Dw i'n gallu holi rhywun arall ble aethon nhw, sut daethon nhw a beth gaethon nhw i fwytia/yfed
I can ask someone else where they went, how they came and what they had to eat/drink
- Dw i'n gallu trafod dulliau o deithio
I can discuss modes of transport



Patrymau unedau 11-15

Patterns of units 11-15

Treiglad Trwynol / Nasal Mutation ar ôl FY

partner	fy m hartner i
brawd	fy m rawd i
tad-cu	fy n had-cu i
doctor	fy n octor i
car	fy n ghar i
gw <small>r</small> / gwraig	fy ngw <small>r</small> i / fy ngwraig i

Treiglad Meddal / Soft Mutation ar ôl DY

partner	dy b artner di
brawd	dy f rawd di
tad-cu	dy d ad-cu di
doctor	dy d octor di
car	dy g ar di
gw <small>r</small> / gwraig	dy _w <small>r</small> di / dy _wraig di
mam	dy f am di
llaw	dy l aw di
rhieni	dy r ieni di

Treiglad Meddal / Soft Mutation ar ôl EI (his)

partner	ei bartner e	etc
---------	--------------	-----

Treiglad Llaes / Aspirate Mutation ar ôl EI (her)

partner	ei p hartner hi
tad	ei th ad hi
cariad	ei char iad hi



Amser Gorffennol **mynd, dod a cael** / Past tense of to go, to come and to have

		Cadarnhaol Affirmative	Negyddol Negative	Cwestiwn Question
mynd	1	es i	es i ddim	es i?
	2 (ti)	est ti	est ti ddim	est ti?
	2 (chi)	aethoch chi	aethoch chi ddim	aethoch chi?
dod	1	des i	ddes i ddim	ddes i?
	2 (ti)	dest ti	ddest ti ddim	ddest ti?
	2 (chi)	daethoch chi	ddaethoch chi ddim	ddaethoch chi?
cael*	1	ges i	ges i ddim	ges i?
	2 (ti)	gest ti (or cest ti)	gest ti ddim	gest ti?
	2 (chi)	gaethoch chi	gaethoch chi ddim	gaethoch chi?

*The forms of *cael* given here are colloquial. You may also come across *ces i, ches i ddim* and *cawsoch chi, gawsoch chi*?

Treiglad meddal in negative of some verbs – **ddes i ddim**. The strict rule is that verbs beginning in b, d, g, m, ll and rh have a soft mutation (treiglad meddal) – **ddes i ddim**; and that verbs starting in p, t or c have an aspirate mutation (treiglad llaes). The aspirate mutation, however – **ches i ddim** – is rarely heard in spoken Welsh; you will normally hear **ges i ddim**.

Treiglad meddal in question forms – **ddest ti? gest ti?**

Treiglad meddal in the object – **Ges i goffi. Ges i frechdan jam.**



Geirfa Graidd - unedau 11-15

allwedd(i) (b)	- keys(s)	cyn	- before
am (+ TM)	- at (time)	cynnar	- early
ar	- on	cyri	- curry
ar ben	- on top of	cyrraedd	- to arrive
ar gefn	- on (the back of)	cyw iâr	- chicken
ar y ffordd	- on the way	diddorol	- interesting
ateb	- to answer	Dinbych	- Denbigh
ateb(ion)	- answer(s)	drws	- door
awyren (b)	- plane	ddoe	- yesterday
bocs	- box	enwog	- famous
bore ddoe	- yesterday morning	fel arfer	- usually
bôs	- boss	ffordd (b) (fflyrdd)	- way(s), road(s)
brecwast	- breakfast	Ffrainc	- France
brechdan (b)	- sandwich	ffrind(iau)	- friend(s)
bwyd môr	- seafood	gweld	- to see
bwyta	- to eat	gwin	- wine
cadair (b)	- chair	gŵr	- husband
cadair freichiau (b)	- armchair	gwraig (b)	- wife
camera	- camera	hanner dydd	- midday
cawl	- soup	hanner nos	- midnight
cawod (b)	- shower	hufen iâ	- ice cream
cefnder	- cousin (male)	hwyl	- fun
cig	- meat	hwyr	- late
cinio	- lunch	i bwdin	- for dessert
coffi	- coffee	i de	- for tea
cot (b)	- coat	i frecwast	- for breakfast
cwrdd â	- to meet	i fwyta	- to eat
cwrw	- beer	i ginio	- for lunch/for dinner
cyfnither (b)	- cousin (female)	i swper	- for supper
cymydog		Lerpwl	- Liverpool
(cymdogion)	- neighbour(s)	llaw (b)	- hand

Misoedd y Flwyddyn

Ionawr	<i>January</i>
Chwefror	<i>February</i>
Mawrth	<i>March</i>
Ebrill	<i>April</i>
Mai	<i>May</i>
Mehefin	<i>June</i>
Gorffennaf	<i>July</i>
Awst	<i>August</i>
Medi	<i>September</i>
Hydref	<i>October</i>
Tachwedd	<i>November</i>
Rhagfyr	<i>December</i>

Yr Amser

The time

4.00	pedwar o'r gloch
4.05	pum munud wedi pedwar
4.10	deg munud wedi pedwar
4.15	chwarter wedi pedwar
4.20	ugain munud wedi pedwar
4.25	pum munud ar hugain wedi pedwar
4.30	hanner awr wedi pedwar
4.35	pum munud ar hugain i bump
4.40	ugain munud i bump
4.45	chwarter i bump
4.50	deg munud i bump
4.55	pum munud i bump

llyfr	- <i>book</i>
llyfr sieciau	- <i>cheque book</i>
mae'n ddrwg	
gyda fi	- <i>I'm sorry</i>
mam-gu (b)	- <i>grandmother</i>
mēc	- <i>make (as in car)</i>
nabod	- <i>to know (a person)</i>
nawr	- <i>now</i>
neithiwr	- <i>last night</i>
o dan	- <i>under</i>
o'r gloch	- <i>o'clock</i>
paned	- <i>cuppa, a cup of tea or coffee</i>
papur (newydd)	- <i>(news)paper</i>
peint	- <i>pint</i>
pensel (b)	- <i>pencil</i>
poched (b)	- <i>pocket</i>
popeth yn iawn	- <i>not to worry, fine</i>
potelaid	- <i>bottleful</i>
postmon	- <i>postman</i>

priod	- <i>married</i>
Pryd?	- <i>When?</i>
pryd o fwyd	- <i>meal</i>
pwrs	- <i>purse</i>
rhieni	- <i>parents</i>
salad	- <i>salad</i>
Sbaen	- <i>Spain</i>
swper	- <i>supper</i>
tacsi	- <i>taxi</i>
tad-cu	- <i>grandfather</i>
tafarm(au) (b)	- <i>pub(s)</i>
tan	- <i>until</i>
teledu	- <i>television</i>
trēn	- <i>train</i>
wrth	- <i>by</i>
ŵyr	- <i>grandson</i>
wyres (b)	- <i>grand-daughter</i>
y llynedd	- <i>last year</i>
yn dal yn braf	- <i>still fine</i>
yng-nghyfraith	- <i>in-law</i>